Tracey Burke
Cyfarwyddwr Cyffredinol - y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru

9 Rhagfyr 2020

Annwyl Tracey

**Covid-19: Yr effaith ar addysg a llywodraeth leol**

Diolch am fod yn bresennol yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 30 Tachwedd pan wnaethom drafod ymhellach yr effaith y mae Covid-19 wedi'i chael ar wasanaethau addysg. Hefyd, ystyriwyd yr effaith ar lywodraeth leol, yn enwedig yn sgil adroddiadau diweddar Archwilydd Cyffredinol Cymru yn y sector hwn.

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar addysg, nododd eich swyddogion ganran y dysgwyr sy'n mynd i'r ysgol. Nododd y Pwyllgor ystadegau diweddaraf Llywodraeth Cymru, a oedd ar y pryd yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 16 a 20 Tachwedd. Roedd y rhain yn dangos bod 87.3 y cant o ddisgyblion ar gyfartaledd yn bresennol yn yr ysgol yn ystod yr wythnos honno. Cytunoch i anfon nodyn, a byddem yn croesawu dadansoddiad er mwyn deall y patrwm presenoldeb yn well, yn enwedig p'un a oes unrhyw gydberthynas ag ardaloedd ag amddifadedd. Hefyd, cytunoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed i gynorthwyo dysgwyr o'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

Yn ystod ein trafodaethau am y dystiolaeth a glywyd, cododd yr Aelodau nifer o ymholiadau pellach y manylir arnynt isod:

- Roedd yr aelodau'n pryderu i glywed am y gwahanol ddulliau y mae ysgolion ledled Cymru yn eu defnyddio o ran y rheolau hunanynysu ac yn teimlo y dylai ysgolion ledled Cymru ddefnyddio dull cyson. Rydym yn arbennig o

bryderus o ystyried nifer y disgyblion a allai fod i ffwrdd o'r ysgol yn ddiangen am gyfnodau hir.

- Mae trafodaethau wedi bod yn mynd rhagddynt ers misoedd lawer ynghylch dysgu cymysg a dysgu cyfunol ac rydym yn synnu unwaith eto nad yw'r Gweithgor Dysgu Cyfunol wedi cyflwyno adroddiad eto. A allwch chi gadw mewn cysylltiad a rhoi gwybod i ni am ganlyniad gwaith y Grŵp pan fydd ar gael, gan gynnwys y gwaith yn ymwneud â mynd i'r afael ag allgáu digidol?
- Yn eich tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 3 Awst, gwnaethoch nodi bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhannu arfer da ynglŷn â sut mae ysgolion wedi bod yn gweithredu yn ystod y pandemig, gan fod profiadau disgyblion hyd at y pwynt hwnnw wedi bod yn amrywiol. Gwnaethoch nodi bod astudiaethau achos wedi bod ar gael ar blatfform Hwb a dywedoch fod Estyn ar fin ymgysylltu ag awdurdodau lleol i nodi arfer gorau. Gwnaethoch sôn hefyd am rannu arfer da yn y sesiwn ar 30 Tachwedd. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am yr astudiaethau achos a’r gwaith y mae Estyn wedi’i wneud. Sut mae'n cael ei ddefnyddio i ysgogi gwelliant a pha dystiolaeth sydd ar gael i brofi ei fod yn gwneud gwahaniaeth?
- Dywedoch wrth y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi lleihau’r baich a roddir ar ysgolion yn ystod y pandemig. Rydym yn croesawu’r camau a gymerwyd i leihau’r pwysau ar ysgolion, ond hoffem gael rhagor o fanylion am y newidiadau yr ydych wedi’u cyflwyno, am y penderfyniadau a arweiniodd atynt a pha asesiad a wnaed o ran a ydynt yn gwneud gwahaniaeth. A fydd y rhain yn parhau i fod ar waith yn y byd ar ôl Covid-19?

Yn olaf, ynglŷn â threfniadau arholiadau, dywedoch wrth y Pwyllgor fod gwaith y grŵp cynghori ar ddylunio a darparu wrthi’n cael ei wneud, gyda'r bwriad o gyflwyno adroddiad i'r Gweinidog cyn y Nadolig. Mae'n debygol, felly, na fydd unrhyw gyhoeddiadau’n cael eu gwneud tan y flwyddyn newydd ac rydym yn pryderu nad yw hyn yn rhoi digon o amser i roi mesurau ar waith i ddysgwyr sydd mewn blynyddoedd arholiad. Nid yw lefel yr ansicrwydd ar gyfer dysgwyr ac athrawon fel ei gilydd yn ddefnyddiol, ac rydym yn pryderu am y straen ychwanegol y mae hyn yn ei hachosi. Rydym yn eich annog i ystyried canfyddiadau'r Grŵp ac i unrhyw gyhoeddiadau Gweinidogol dilynol gael eu gwneud cyn gynted â phosibl yn y flwyddyn newydd.

O ran llywodraeth leol, gwnaethom gynnal trafodaeth sylweddol ar lefel y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio gan awdurdodau lleol a nodwn y bydd Archwilio Cymru yn gwneud darn arall o waith yn archwilio cronfeydd wrth gefn pob awdurdod lleol. Rydym yn disgwyl yr adroddiad hwnnw, a byddwn yn argymell yn ein Hadroddiad Gwaddol bod y Pwyllgor olynol yn ystyried cynnal ymchwiliad i'r cronfeydd wrth gefn sydd gan awdurdodau lleol.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.